## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth, 16 Medi 2025

**Yn bresennol:** Cyng. Einir Thomas – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, William Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson, a Gareth Thomas.
**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / SAC a Ken Taylor y Cynghorydd Sir. .

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen.

2. **Datganiad o Ddiddordeb** – datganiadau o fuddiant personol gan :
Cyng. Gwilym O. Jones yn eitem 4.2 - Neuadd y Pentref a
Cyng. Sir K. Taylor - materion cynllunio oherwydd ei swydd ar y Pwyllgor Cynllunio.
Cyng. C. Furlong yn datgan buddiant rhagfarnllyd yn eitem 5.1 a gadawodd yr ystafell am gyfnod y trafodaethau yn yr eitem hon.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
Derbyniwyd cofnodion 15 Gorffennaf 2025 fel rhai cywir (cynnig. Cyng. S.E. Jones, eilio Cyng. G.O. Jones).
Derbyniwyd cofnodion dyddiedig 1 Medi 2025 hefyd fel rhai cywir (cynnig Cyng. Cynghorydd G.O. Jones, eilio. Cyng. W.V. Owen)

4. **Materion sy'n codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Adroddwyd nad oedd unrhyw risg sylweddol wedi'u nodi yn adroddiad ROSPA ond nodwyd y dylid addasu'r tŷ chwarae i wella safonau diogelwch.
Byddai Craig Redmond yn tynnu'r coed ynn oedd wedi marw yn yr wythnosau nesaf.
Nodwyd bod rhwystrau sy'n atal plant rhag rhedeg yn syth ar y ffordd o'r cae chwarae erbyn 31-33 Ystâd Treifan wedi'u tynnu. Byddai'r clerc yn gofyn i'r rhain gael eu rhoi yn ei hôl.
Derbyniwyd cwyn bod pêli yn cael eu cicio at gefn y tai yn y cae chwarae. Cytunwyd i ystyried a oedd lle ar gyfer rhwyd bêl-droed yno gan gofio nad oedd y brydles ardal chwarae yn cwmpasu'r holl dir at faes parcio wrth Cae Ifan.

4.2 Neuadd y Pentref: Roedd gwaith wedi dechrau ar y system wresogi. Dywedwyd fod y Cyngor wedi llwyddo i gael grant o £1000 gan Gynghrair Bro Llynnoedd tuag at y gost o gysylltu'r cyflenwad dŵr newydd.

4.3 Goleuadau Stryd Lôn Minffordd – cytunwyd i aros i weld faint o’r rhain fydd angen ar ôl i ddatblygwr yr ystâd newydd ar Lon Minffordd osod y rhai y cytunwyd arnynt fel rhan o'r cais cynllunio hwnnw.

4.4 Roedd y Cyng. W.V. Owen wedi torri'r glaswellt oedd yn cuddio arwydd Lon Minffordd.

4.5 Unrhyw fater arall sy'n deillio o'r cofnodion - dim.

5. **Cynllunio**

5.1 FPL/2025/186 Bryn Ednyfed, Caergeiliog.
Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol at ddibenion storio – dim gwrthwynebiad.
Gadawodd Cyng. Celfyn Furlong y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

5.2 FPL/2025/185 Bron Hill, Llanfair Yn Neubwll.
Cais ôl-weithredol ar gyfer codi adeilad cattery newydd ac uned ynysu ar wahân yn lle rhan o'r cyfleuster presennol – dim gwrthwynebiad.

**6. Materion Ariannol**
Cyflwynodd y SAC yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng 1.7.2025 a 31.8. 2025 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.

6.1 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytunwyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Gorffennaf ynghyd ag ôl-daliad.) | £398.35 | Shaun Wharton (torri glaswellt / llwybrau troed | £596 |
| Cyflog (Awst) | £364.19 | Clerc (Nwy Prydain) | £121.30 |
| Prydles Neuadd y Pentref | £250 | Clerc - Ffi cysylltu Dŵr Cymru | £1762.62 |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / RFO yn talu unrhyw anfonebau a dderbynnir mewn perthynas â gwariant y cytunwyd arnynt yn flaenorol.

**7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

7.1 Cyd-bwyllgor Corfforaethol Cymru a'r Cytundeb Cyflawni drafft ar y Cynllun Datblygu Strategol

7.2 Ymgynghoriad ar gasglu deunyddiau gwastraff ar-wahan ar gyfer ailgylchu - Cod Y marfer Cymru

7.3 Ymgynghoriad ar ymestyn y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd

7.4 Asesu Perfformiad (PPA) CSYM

7.5 Tîm Bioamrywiaeth – Un Llais Cymru

**8. Hyfforddiant**

Cafwyd llythyr gan y Pwyllgor Safonau yn mynegi siom nad oedd unrhyw aelodau na chlercod o 21 o'r 40 o Gynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn wedi mynychu'r hyfforddiant yr oeddent wedi'i drefnu ar gyfer Hydref a Thachwedd 2024.
Nid oedd Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll yn un o'r 21 cyngor hynny.

**9 Adroddiadau Aelodau**

9.1 Cyng. Gwilym O. Jones:
Dywedodd fod y gwaith ar y maes awyr wedi'i gwblhau a bod gwaith arwynebu yn debygol o ddechrau ar Lon Minffordd cyn bo hir. Cytunwyd i atgoffa CSYM bod angen rhoi sylw i Lon Cymyran hefyd.

9.2 Cyng Sharon Parry
Gofynnodd am i'r bin a symudwyd gyferbyn â'r eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn gael ei roi yn ei ôl.

Adroddwyd bod sawl cerbyd mawr oedd yn perthyn i gwmni symud (man with a van) wedi bod yn parcio ym mhob man ar y Lon Minffordd.

9.3 Awgrymodd Cyng. William Victor Owen y dylai'r Cyngor gael dyfynbris ar gyfer gatiau newydd i'r neuadd.

**10. Cyfarfod Nesaf - 21 Hydref 2025**

: